| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | **6 Chwefror 2025** |
| TEITL: | **Arbedion a Thoriadau 2025/26** |
| PWRPAS: | **Cyflwyno gwybodaeth am y broses o sefydlu Cynllun Arbedion a Thoriadau 2025/26 fel cyfraniad at fwlch cyllidol y Cyngor** |
| GWEITHREDIAD: | **Craffu'r wybodaeth cyn i'r Cabinet ystyried cymeradwyo'r Cynllun Arbedion yn ei gyfarfod ar y 11eg o Chwefror** |
| AELOD CABINET: | **Y CYNGHORYDD NIA JEFFREYS** |
| SWYDDOG CYSWLLT: | **DAFYDD GIBBARD, PRIF WEITHREDWR** |

**1.** Yn ei gyfarfod ar 11 Chwefror bydd y Cabinet yn ystyried yr adroddiad amgaeedig er mwyn dod i gasgliad os yw'n Gynllun Arbedion synhwyrol fel un cyfraniad tuag at y bwlch cyllidol sy'n ein hwynebu yn 2025/26.

**2.** Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried priodoldeb y broses o adnabod yr arbedion, a chyflwyno sylwadau i'r Cabinet eu hystyried cyn dod i benderfyniad.

**3.** Nid rôl y Pwyllgor yw mynegi barn ar beth ddylai maint yr arbedion fod neu rinweddau'r cynigion unigol sy'n cael ei hargymell fel arbedion, ond yn hytrach sicrhau fod y Cabinet yn glir o'r ffeithiau sydd yn cael eu cyflwyno iddynt, fel bod y penderfyniad sydd yn cael ei gymryd yn seiliedig ar wybodaeth gadarn.

**4.** Yn gryno, disgwylir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fodloni ei hun fod y wybodaeth sy'n cael ei gyflwyno yn yr adroddiad yma yn ddigonol i alluogi'r Cabinet wneud penderfyniad ar y Cynllun Arbedion yn ei gyfanrwydd.

**5.** Er enghraifft

- Ydi’r Pwyllgor yn fodlon fod y broses o adnabod yr arbedion a nodir yn Atodiad A yn rhesymol?
- Ydi’r Pwyllgor yn fodlon fod camau rhesymol, o dan amgylchiadau heriol iawn, wedi eu cymryd i lunio’r Cynllun Arbedion?
- Oes modd cael sicrwydd fod yr arbedion a gynigir yn rhesymol a chyraeddadwy neu ydi’r adroddiad yn delio gyda rhagdybiaethau mewn ffordd synhwyrol?
- Ydi’r adroddiad yn glir am oblygiadau y penderfyniad a geisir?
- Ydi’r risgiau yn eglur?

**Atodiad:**
Cynllun Arbedion 2025/26 (adroddiad Cabinet 11/02/2025)